The Daily Mile
Santa Run

Annwyl ddisgyblion ac athrawon,

Ho Ho Ho! Cyfarchion llawen o Begwn y Gogledd!

Yn ôl fy nghorachod, rydych chi'n ysgol neu'n lleoliad blynyddoedd cynnar sy'n cymryd rhan yn The Daily Mile!

Mae'n bwysig ofnadwy edrych ar ôl eich lles corfforol a meddyliol, yn enwedig yn ystod y cyfnod prysur a chyffrous hwn o'r flwyddyn! Da iawn chi!

Mae gen i her arbennig i chi: Milltir Santa The Daily Mile! Ddydd Gwener, Rhagfyr 6ed, trowch eich milltir y dydd yn ddigwyddiad mwyaf llawen y tymor. Bydd y corachod a minnau yn gwneud ein milltir The Daily Mile o gwmpas Pegwn y Gogledd, ac rydym ni eisiau i chi ymuno yn yr hwyl hefyd!

I ychwanegu at y naws Nadoligaidd, beth am wneud eich band pen eich hun i'w wisgo ar eich Milltir Santa. Byddwch yn greadigol a defnyddiwch yr adnoddau i greu rhywbeth difyr.

Mae'r corachod a minnau yn tincial mewn cyffro, ac allwn ni ddim aros i'ch gweld chi i gyd yn ymuno yn yr hwyl! Peidiwch ag anghofio rhannu eich hwyl Nadoligaidd ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn imi gael eich gweld yn gwneud Milltir Santa The Daily Mile.

Cyfarchion y tymor a Ho Ho Ho,

Gan


Santa






Get your
Santa Run Pack

Nadolig Llawen



Nadolig Llawen




Nadolig Llawen



Nadolig

llawen





The Daily Mile Santa Run





Adnodd i'w Argraffu


Paratowch ar gyfer Milltir Santa The Daily Mile! Crëwch fand pen difyr, Nadoligaidd i'w wisgo wrth redeg:

Bydd arnoch chi angen

- Templedi band pen wedi eu hargraffu (dewiswch o'r 2 opsiwn).
- Siswrn
- Stapler/glue/tape
- Deunyddiau addurno (pensiliau, pinnau ffelt, deunyddiau crefft). Gwnewch yn siwr bod oedolyn yn goruchwylio wrth ddefnyddio sisyrnau.


The Daily Mile Santa Run

Name



Cyfarwyddiadau

1. Printiwch y dudalen dempled o'ch dewis ar gyfer band pen i bob disgybl ac oedolyn.
2. Byddwch yn greadigol! Addurnwch eich band pen Nadoligaidd.
3. Torrwch y darnau templed llan a'u cysylltu ym mhob pen i ffitio'r pen (gall oedolyn neu ffrind eich helpu gyda'r rhan yma).
4. Gwisgwch eich band pen Nadoligaidd yn ystod Milltir Santa The Daily Mile!



Rydym ni wrth ein boddau'n gweld cymuned The Daily Mile felly plîs rhannwch luniau a straeon ar sianeli cyfryngau cymdeithasol! Gwnewch yn siwr bod gennych chi ganiatâd i rannu'r lluniau ar-lein.




The Daily Mile

Santa Run

Name

The Daily Mile

Santa Run



Name

Llongyfarchiadau!

Enw

Dyddiad

Rydych chi wedi llwyddo i gwblhau

The Daily Mile

Milltir Santa



